# BETH AM GYSYLLTU

GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 4-7 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023

GWEITHGAREDD 2

## CYSYLLTIADAU YN Y DOSBARTH



**Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu disgyblion i edrych ar y gwahanol ffyrdd maen nhw wedi'u cysylltu â'u cyd-ddisgyblion.**

- Gofynnwch i'r disgyblion wneud amlinelliad o'u llaw ar ddarn o bapur, ei dorri allan a'i addurno, ac yna ysgrifennu eu henw neu dynnu llun o'u hunain ar y llaw. Cysylltwch y dwylo mewn cylch ar arddangosfa, gydag enw'r dosbarth yn y canol.
- Neu gallwch ddefnyddio ein templed ar y dudalen nesaf. Gofynnwch i'r disgyblion liwio ac addurno llaw i gynrychioli eu hunain ac yna creu arddangosfa o'r dwylo'n gysylltiedig, law yn llaw.
- Ar ôl i chi greu eich arddangosfa dosbarth, anogwch y disgyblion i feddwl am un peth sy'n eu cysylltu â'r disgybl maen nhw wedi cysylltu ag ef/hi ar yr arddangosfa. Er enghraifft, efallai bod gan y ddau'r un lliw llygaid neu wallt, efallai eu bod yn hoffi'r un cymeriad teledu neu'n mwynhau'r un bwyd. Os yw'r disgyblion yn cael trafferth i feddwl am rywbeth, atgoffwch nhw eu bod nhw yn yr un dosbarth!
- Gallech hefyd ofyn i'r disgyblion feddwl am un gwahaniaeth rhyngddyn nhw a chyd-ddisgybl. Trafodwch â'r dosbarth sut mae pawb yn wahanol, a phwysigrwydd dathlu'r gwahaniaethau hynny. Er gwaethaf ein gwahaniaethau, rydym i gyd wedi ein cysylltu.
- Ar ôl iddynt orffen creu eu lluniau, siaradwch â'r disgyblion am sut maen nhw i gyd wedi cysylltu fel dosbarth (yn cynnwys yr athro ac unrhyw staff cymorth) - hyd yn oed gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau.

**Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer plant 4-7 oed, ond fe allech ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau oed eraill hefyd. I ymestyn y cynnwys, cyfeiriwch at syniadau eraill am weithgareddau.**

# BETH AM GYSYLLTU

GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 4-7 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023

